NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
CARDIFF BAY LIBRARY
DP 287/99-03
LLYFRGELL BAE CAERDYDD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Cynog Dafis AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Rhagfyr 2000

Annwyl Mr Dafis

Gofynnodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i mi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r cwestiwn canlynol a gyflwynwyd gennych fel Cwestiwn Ysgrifenedig i'r Cynulliad (WAC6772):

*A wnaiff hi roi manylion am gost ailstrwythuro Estyn yn ystod 2000, gan gynnwys cost taliadau terfynu cyflogaeth?*

Wrth ailstrwythuro Estyn fe newidiwyd swyddi y Gwasanaeth Sifil Uwch o bedair i dair swydd ail-haen a oedd yn weithredol o 31 Mawrth 2000; crëwyd trydedd haen newydd o Arolygwyr Rheoli a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2000 ac ad-drefnwyd rhai o'r dyletswyddau mewnol yn ystod 2000-01.

**Costau ym 1999-2000**

Gallaf gadarnhau i ni derfynu cyflogaeth rhai yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cyfrifon Adnoddau Estyn ar gyfer 1999-2000, a gaiff eu cyhoeddi cyn bo hir, yn cynnwys y ffigwr £312,000 am ymddeoliadau cynnar. Mae'n cynnwys darpariaeth fechan ar gyfer costau parhaus ymddeoliad gwirfoddol a gymerwyd yn ystod 1996. Yn unol â'r weithdrefn uchod, talwyd £102,000 (i'r £'000 agosaf) hefyd yn ystod 1999-2000 fel Iawndal yn Lle Rhybudd ynghyd â'r Yswiriant Gwladol cysylltiedig.



Rhan 1, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5FQ Ffôn 029 20 325000 Ffacs 029 20 758182
Phase 1, Government Buildings, Tŷ Glas Road, Llanishen, Cardiff CF14 5FQ Telephone 029 20 325000 Fax 029 20 758182

**Arbedion yn 2000-2001**

Bydd yr arbedion fydd yn dechrau cronni yn 2000-2001 fel a ganlyn:

| **2000-2001** | **£'000** |
|---|---|
| Gostyngiadau mewn cost cyflogau | (230) |
| Costau swyddi newydd, gan gynnwys Arolygwyr Rheoli | 130 |
| Costau Pensiwn | 81 |
| **Arbedion Blynyddol 2000/01** | **(19)** |

Ni nodwyd costau yr ad-drefnu dyletswyddau mewnol gan iddo gael ei gynnwys o fewn lefelau gweithgaredd gwaith dyddiol arferol.

Byddaf yn trefnu i gopi o'r llythyr hwn gael ei roi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr eiddoch yn gywir

**SUSAN LEWIS**
Prif Arolygydd EM